# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 3

CWRICWLWM AR GYFER DARPARIAETH EITHRIADOL O ADDYSG MEWN UNEDAU CYFEIRIO DISGYBLION NEU MEWN MANNAU ERAILL

*Unedau cyfeirio disgyblion*

### 50 Gofynion cwricwlwm

(1) Rhaid i'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli (os oes un) a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau bod cwricwlwm ar gyfer yr uned sy'n cydymffurfio â'r gofynion yn is-adrannau (2) i (5).

(2) Y gofyniad cyntaf yw bod rhaid i'r cwricwlwm—

- (a) galluogi disgyblion i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben,
- (b) darparu ar gyfer cynnydd priodol i ddisgyblion,
- (c) bod yn addas i ddisgyblion o oedrannau, galluoedd a doniau gwahanol, a
- (d) bod yn eang ac yn gytbwys, i'r graddau y mae'n briodol i ddisgyblion.

(3) Yr ail ofyniad yw bod rhaid i'r cwricwlwm wneud darpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu—

- (a) sy'n cwmpasu maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles,
- (b) sy'n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac
- (c) sy'n datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.

(4) Y trydydd gofyniad yw bod rhaid i'r ddarpariaeth a wneir o dan is-adran (3)(b) fod yn briodol yn ddatblygiadol i ddisgyblion.

(5) Y pedwerydd gofyniad yw bod rhaid i'r cwricwlwm wneud darpariaeth, os yw'n rhesymol bosibl a phriodol gwneud hynny, ar gyfer addysgu a dysgu—

(a) yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill, a

(b) yn yr elfennau mandadol eraill.

(6) Rhaid i'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm ar gyfer yr uned, neu drefnu iddo gael ei gyhoeddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 50 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I2** A. 50 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(d), **Atod.**

**I3** A. 50 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(d)

## 51 Adolygu a diwygio cwricwlwm

(1) Rhaid i'r awdurdod lleol, y pwyllgor rheoli (os oes un) a'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion—

(a) cadw'r cwricwlwm ar gyfer yr uned o dan adolygiad, a

(b) sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion yn adran 50.

(2) Wrth ystyried a yw'r cwricwlwm yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion yn adran 50, rhaid iddynt roi sylw i wybodaeth sy'n deillio o unrhyw drefniadau asesu a weithredir ganddynt o dan reoliadau a wneir o dan adran 56.

(3) Rhaid iddynt ddiwygio'r cwricwlwm os ydynt yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gydymffurfio â'r gofynion yn adran 50.

(4) Cânt ddiwygio'r cwricwlwm hefyd ar unrhyw adeg y maent yn ystyried ei bod yn briodol gwneud hynny.

(5) Os caiff y cwricwlwm ei ddiwygio, rhaid i'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am yr uned gyhoeddi crynodeb o'r cwricwlwm diwygiedig, neu drefnu iddo gael ei gyhoeddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I4** A. 51 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**

**I5** A. 51 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(d), **Atod.**

**I6** A. 51 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(d)

## 52 Gweithredu cwricwlwm

(1) Rhaid i'r athro neu'r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer yr uned yn cael ei weithredu mewn ffordd—

(a) sy'n galluogi pob disgybl i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben,

(b) sy'n sicrhau addysgu a dysgu sy'n cynnig cynnydd priodol i bob disgybl,

(c) sy'n addas ar gyfer oedran, gallu a dawn pob disgybl,

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Unedau cyfeirio disgyblion. (See end of Document for details)*

(d) sy’n ystyried anghenion dysgu ychwanegol pob disgybl (os oes rhai), ac
(e) sy’n sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys i bob disgybl.

(2) Rhaid i’r athro neu’r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion sicrhau bod y cwricwlwm ar gyfer yr uned yn cael ei weithredu mewn ffordd sy’n sicrhau addysgu a dysgu i bob disgybl—
(a) sy’n cwmpasu maes dysgu a phrofiad Iechyd a Lles,
(b) sy’n cwmpasu elfen fandadol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb, ac
(c) sy’n datblygu’r sgiliau trawsgwricwlaidd mandadol.

(3) Rhaid i’r athro neu’r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion sicrhau bod yr addysgu a dysgu a sicrheir o dan is-adran (2)(b) yn addas ar gyfer cyfnod datblygu pob disgybl.

(4) Rhaid i’r athro neu’r athrawes sydd â chyfrifoldeb am uned cyfeirio disgyblion—
(a) ystyried pa addysgu a dysgu y byddai’n briodol ei ddarparu ar gyfer pob disgybl yn y meysydd dysgu a phrofiad eraill a’r elfennau mandadol eraill y mae’r cwricwlwm yn gwneud darpariaeth ar eu cyfer, a
(b) sicrhau, i’r graddau y mae’n rhesymol bosibl, y darperir yr addysgu a dysgu ar gyfer y disgybl.

(5) Rhaid i’r awdurdod lleol a’r pwyllgor rheoli (os oes un) ar gyfer uned cyfeirio disgyblion arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau y gweithredir y cwricwlwm ar gyfer yr uned i ddisgyblion yn unol â’r adran hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 52 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 84(2)**
**I8** A. 52 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, ergl. 5(1)(2)(d), **Atod.**
**I9** A. 52 mewn grym ar 1.9.2023 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/652, **ergl. 6(1)**(2)(d)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Unedau cyfeirio disgyblion.